# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**By Teams**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 3 Mawrth 2022**

Amser y Cyfarfod
**12.00 pm**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 36)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

## 6. BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

## 7. PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2022/23

Cymeradwyo penderfyniad Treth y Cyngor a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23.
(I Ddilyn)

## 8. CYMERADWYO CYTUNDEB CYFLAWNI AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD POWYS A CHYTUNO I'W GYFLWYNO I LYWODRAETH CYMRU

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
(Tudalennau 37 - 96)

## 9. DATGANIAD POLISI CYFLOGAU 2022/23

Ystyried y datganiad polisi cyflogau ar gyfer 2022/23.
(Tudalennau 97 - 120)

## 10. CYFANSODDIAD

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
(Tudalennau 121 - 326)

## 11. CYNLLUN DEISEBAU

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
(I Ddilyn)

## 12. PENODI AELODAU ANNIBYNNOL (LLEYG) AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
(Tudalennau 327 - 328)

## 13. PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Demoecrataidd.
(I Ddilyn)

## 14. PENODIADAU I BWYLLGORAU

Penodwyd y Cynghorydd Sir Graham Breeze i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y grŵp Annibynnol.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Michael J Jones i Bwyllgor Craffu yr Economi, y Trigolion a Chymunedau yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y grŵp Annibynnol.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Edwin Roderick i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y grŵp Annibynnol.

Penodwyd y Cynghorydd Sir David Evans i'r Pwyllgor Trwyddedu yn lle'r Cynghorydd Sir Phil Pritchard gan y grŵp Annibynnol.

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG - COEDWIGO CYFRIFOL - DULL CYNALIADWY NAD YW'N ECSBLOETIOL |
|---|---|

Mae'r Cyngor yn mynegi ei bryder ynghylch prynu ffermydd teuluol ym Mhowys a'r rhanbarth ehangach gan gwmnïau rhyngwladol i blannu coed er mwyn creu 'credydau carbon' sy'n cael eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru i gyrraedd eu targedau gwrthbwyso carbon.

Er ei fod yn derbyn bod plannu coed ar raddfa fawr yn cael ei gydnabod fel un ffordd o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae'r Cyngor yn gresynu bod gwrthbwyso carbon yn caniatáu i'r cwmnïau sy'n gollwng llawer o garbon barhau â'u hymddygiad anghynaliadwy.

At hynny, mae'r Cyngor yn nodi bod cwmnïau rhyngwladol eisoes wedi hawlio dros £1.3m gan Lywodraeth Cymru drwy gronfa Glastir - Creu Coetir, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymru yn rhoi cymhorthdal i raglenni gwrthbwyso carbon cwmnïau o'r tu allan i Gymru.

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o goedwigaeth gyfrifol ond mae'n credu bod yn rhaid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol, ac ni ddylai gael effaith andwyol ar gyflogaeth leol, diwylliant a hyfywedd cymunedol.

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- Sicrhau nad yw cwmniau rhyngwladol sy'n prynu ffermydd i blannu coed er mwyn creu 'credydau carbon' sy'n cael eu gwerthu i gwmnïau sy'n llygru i gyrraedd eu targedau gwrthbwyso carbon yn cael eu sybsideiddio gan drethdalwyr Cymru.
- Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Powys i reoli prosiectau coedwigo, a phennu terfyn ar gyfran y tir ar unrhyw fferm y gellir ei defnyddio ar gyfer coedwigo heb fod angen caniatâd cynllunio
- Cyflawni ei chynlluniau coedwigo drwy ddatblygu cwmni hyd braich sy'n eiddo cyhoeddus i reoli coedwigaeth Cymru a helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau carbon

Mae'r Cyngor yn cydnabod barn ymgyrchwyr amgylcheddol nad ateb syml yw plannu coed i osgoi newid yn yr hinsawdd ac mae'n cytuno mai dim ond cwtogiad sydyn ar

losgi tanwydd ffosil all atal y cynnydd parhaus a brawychus mewn tymheredd byd-eang”.

Cynigwyd gan Cyngh. Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan Cyngh. Bryn Davies

**S151 Sylwadau swyddogion ar y goblygiadau o ran costau**
Ni fydd unrhyw ganlyniad ariannol o'r cynnig arfaethedig gan ei fod ond yn gofyn am ohebiaeth â Llywodraeth Cymru am y sefyllfa a nodir uchod. Ni ddisgwylir unrhyw gamau gweithredu na chostau pellach.

| 16. | RHYBUDD O GYNNIG - TLODI TANWYDD |
|---|---|

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod ei Asesiad Llesiant ei hun o 2017 yn cofnodi bod tua 9,500 o aelwydydd ym Mhowys (17%) mewn tlodi tanwydd.
Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymchwil gan felin drafod y Resolution Foundation sy'n datgelu bod nifer yr aelwydydd yn y DU sy'n dioddef o 'straen tanwydd' – y rhai sy'n gwario o leiaf 10% o'u cyllidebau teuluol ar filiau ynni – i fod treblu i 6.3m pan ddaw'r cap newydd ar brisiau ynni i mewn ar 1 Ebrill 2022.

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno â'r '*Arbenigwr Arbed Arian'* uchel ei barch Martin Lewis '*nad gor-ddweud yw dweud y bydd pobl yn y wlad yn dewis rhwng gwresogi a bwyta erbyn mis Ebrill.'*

Mae'r Cyngor hwn yn nodi ac yn croesawu Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru a oedd yn rhoi taliad untro o £200 i aelwydydd y gellir eu talu tuag at dalu biliau tanwydd gaeaf.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y DU a'n Haelodau Seneddol lleol i ddod a'r oedi i ben ar ddelio â'r argyfwng costau byw sy'n wynebu teuluoedd Powys a chymryd camau ar unwaith ac yn sylweddol i gefnogi aelwydydd sy'n cael trafferth gyda'r cynnydd sydyn diweddar yng nghostau ynni cartrefi a'r cynnydd i ddod yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu i alw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau ar unwaith i gefnogi teuluoedd ym Mhowys drwy gael gwared ar TAW ar filiau ynni am o leiaf flwyddyn; cynyddu'r Disgownt Cartrefi Cynnes o £140 i £400 y flwyddyn ac ehangu nifer yr aelwydydd cymwys i 9.3 miliwn; a chyflwyno cynnydd o flwyddyn i flwyddyn i dreth gorfforaethol cynhyrchwyr olew a nwy Môr y Gogledd er mwyn sicrhau gostyngiad o £1.2 biliwn ffawdelw o'r elw yn y cynnydd mewn prisiau i helpu i liniaru biliau ynni cartrefi.

Cynigydd: Cyngh. Matthew Dorrance
Eilydd: Cyngh. Sandra Davies

**Sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar y Gofynion Adnoddau**
Mae'r cynnig arfaethedig yn gofyn i'r cyngor i ysgrifennu i'r llywodraeth genedlaethol i ofyn am newidiadau ledled y wlad i wella tlodi tanwydd. Nid yw'n ymddangos bod angen unrhyw beth pellach o'r cynnig hwn, felly prin yw'r effaith ariannol, er y gallai fod angen amser swyddogion i helpu i

baratoi'r llythyr, sy'n debygol o fod yn bosibl os caiff ei gynllunio yn eu dyddiaduron.

| 17. | RHYBUDD O GYNNIG - DEDDF Y LLUOEDD ARFOG 2021 |
|---|---|

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn sefyll yn gadarn y tu ôl i'n Lluoedd Arfog yn y DU gan gefnogi nodau Cyfamod y Lluoedd Arfog yn llwyr.
- Yn croesawu Deddf newydd y Lluoedd Arfog ond yn gweld y ddeddfwriaeth fel cyfle a gollwyd i wella bywydau cyn-filwyr ym Mhowys.
- Yn nodi â siom bod y Ddeddf, sy'n gwneud Cyngor Sir Powys a chyrff cyhoeddus lleol yn rhwym yn gyfreithiol i gael "sylw dyledus" i'r Cyfamod wrth ddarparu cymorth i gymunedau'r Lluoedd Arfog, yn eithrio llywodraeth ganolog o unrhyw ddyletswydd o'r fath, gan greu Cyfamod dwy haen ar gyfer cyn-filwyr.
- Yn nodi gyda siom pellach bod Aelodau Seneddol Ceidwadol wedi pleidleisio i lawr cynigion a oedd wedi'u harwain gan Lafur, gyda chefnogaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol a chyn-benaethiaid y Gwasanaeth, i ymgorffori'r Cyfamod yn llawn yn y gyfraith a gwella llety, cymorth cyflogaeth a phensiynau'r Lluoedd Arfog ac i roi terfyn ar sgandal ffioedd visa ar gyfer personél y Gymanwlad a Gurkha.
- Yn penderfynu parhau i ymgyrchu gydag elusennau'r Lluoedd Arfog i gael Llywodraeth y DU i gryfhau'r Cyfamod a gwella gwasanaethau hanfodol i gyn-filwyr.

Cynigydd Cyngh. Matthew Dorrance
Eilydd: Cyngh.David Meredith

**Sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar Ofynion Adnoddau:**

Mae'r cynnig yn gofyn am gamau i alw ar y llywodraeth i wneud mwy a rhannu'r cyfrifoldeb, y gellid ei wneud drwy ysgrifennu a mynegi barn am ymrwymiad llywodraethau cenedlaethol i gefnogi hyn – sy'n ariannol yn fach iawn o ran cost barhaus, er y gallai fod angen amser swyddogion i helpu i baratoi'r llythyr, sy'n debygol o fod yn bosibl os caiff ei gynllunio yn eu dyddiaduron.

Mae goblygiadau ehangach i'r cyfamod a'r weithred hon, ac efallai y byddwn eisoes yn ymgymryd â neu efallai y bydd yn rhaid i ni ddarparu cymorth ychwanegol gan addysg, tai a gofal cymdeithasol sy'n ymrwymo i welliannau / newidiadau penodol sy'n cefnogi'r cyn-filwyr - ni ymchwiliwyd i natur yr hyn a ddarparwn eisoes a'r hyn y gallai fod ei angen yn y dyfodol ar y pryd hwn.

| 18. | RHYBUDD O GYNNIG - TRAWSNEWID YSGOLION |
|---|---|

Nodiadau'r Cyngor
1 Ffocws Estyn ar bryderon ynghylch perfformiad yr awdurdod wrth gyflawni ar gyfer Ysgolion Uwchradd Powys yn ei adroddiad yn 2019
2 Y sesiynau ymgynghori a briffio a gynhaliwyd cyn Chwefror 2020 i sefydlu'r rhaglen trawsnewid ysgolion presennol
3 Cyflwyniad y Pennaeth o Ddolgellau fel rhan o'r gynhadledd ymgynghori trawsnewid ar fanteision ysgolion clwstwr mewn ardaloedd gwledig
4 Y newidiadau mawr i'r ffordd y mae ysgolion wedi gweithio yn ystod pandemig Covid
5 Y sylwadau diweddar mewn Papur Briffio Aelodau ar Drawsnewid Ysgolion gan Bennaeth Uwchradd Powys mewn ysgol pob oed gan adlewyrchu, er bod ysgol pob oed yn gweithio, ei fod yn dymuno y gallai fod wedi ymestyn y manteision drwy gynnwys pob ysgol gynradd yn y clwstwr
6 Bod y Cyngor ar fin dechrau datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd gan fod yr un presennol wedi methu â chyflwyno nifer yr eiddo mewn ardaloedd trefol yr oedd disgwyl iddo
Y Cyngor yn Credu
1 Mae rhaglenni trawsnewid llwyddiannus yn rhai sy'n pwyso a mesur eu cyfeiriad os oes newidiadau cymdeithasol neu fusnes mawr a allai newid y model o ddarparu gwasanaethau arfaethedig
2 Bod pandemig Covid yn cynrychioli newid mor sylfaenol mae ei effaith dim ond nawr yn dechrau dod yn amlwg ym marchnad dai Powys gydag effaith ddemograffig sy'n deillio o hynny.
3 Bod y cydweithio agos a ddatblygwyd o fewn clystyrau ysgolion dros y 24 mis diwethaf yn golygu y gallai rhannau helaeth o'r sail ar gyfer newid sy'n atgyfnerthu'r rhaglen drawsnewid bresennol, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm newydd, fod wedi'u disodli gan newidiadau i ffyrdd o weithio ar lawr gwlad
4 Nad yw'r model ysgolion clwstwr fel yr amlinellwyd yn y gynhadledd drawsnewid, a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol fel sail ar gyfer newid, wedi'i brofi'n briodol fel ffordd ymlaen yn unrhyw un o'r cynigion trawsnewid presennol, gan adael y Cyngor yn agored i Adolygiad Barnwrol mewn perthynas â pholisi Ysgolion Gwledig Llywodraeth Cymru o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion
5 Yn absenoldeb y wybodaeth hon, efallai y byddai'r Cabinet wedi gwneud penderfyniadau y byddent am eu hailystyried gyda sesiynau briffio ychwanegol.

Felly, mae'r Cyngor yn gofyn i'r Cabinet
1 I oed am flwyddyn holl gynigion cau presennol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet dros y 18 mis diwethaf.
2 Gofyn i'r tîm trawsnewid gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r tybiaethau sy'n sail i'r rhaglen mewn perthynas â newidiadau a wnaed i ffyrdd o weithio o fewn clystyrau yn ystod Pandemig Covid
3 Gofyn i'r tîm trawsnewid gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r model ysgolion clwstwr a gynigiwyd yn y gynhadledd drawsnewid, a fydd yn helpu i ddatblygu darpariaeth uwchradd ac ôl-19, ond nad yw wedi'i hystyried yn unrhyw un o'r cynigion dilynol.
4 Bod y ddau adroddiad yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd tymor academaidd yr haf a'u bod ar gael i'w trafod gan y cyngor llawn a chraffu cyn i'r penderfyniadau presennol naill ai gael eu hailgadarnhau neu y rhoddir y gorau iddynt yn ystod tymor yr hydref 2022 i'w gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Goblygiadau o ran costau

Mae cynigwyr y cynnig yn credu, er y bydd yr arbedion cymharol fach a nodwyd gan gau sawl ysgol yn cael eu gohirio o un flwyddyn academaidd, y bydd yr arbedion hyn yn cael eu gwrthbwyso'n fwy gyda'r Cyngor yn arbed y treuliau sy'n gysylltiedig â pharatoi ac amddiffyn ar gyfer yr Adolygiadau Barnwrol arfaethedig, hyd yn oed os cânt eu gwrthod yn gynnar yn y broses

4 Bod y ddau adroddiad yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd tymor academaidd yr haf a'u bod ar gael i'w trafod gan y cyngor llawn a chraffu cyn

Cynigydd: Cyngh. James Gibson-Watt
Eilydd: Cyngh. Jake Berriman

**Sylwadau Swyddog Adran 151 ar Ofynion Adnoddau**

Er eich bod yn awgrymu gohirio'r cau presennol, mae effaith ehangach ar yr agenda drawsnewid gyfan, felly bydd yr holl gynlluniau'n llithro flwyddyn o hynny ymlaen. Hyd yn hyn nid ydym wedi cael adolygiad barnwrol ac ni chodwyd unrhyw gostau, felly ni ellid defnyddio'r costau cyfreithiol hyn i'w rhoi yn erbyn anghenion adnoddau ychwanegol.

Mae rhai o'r prif ganlyniadau wedi'u nodi isod:

- Gofynnir i staff dros dro sydd ar gontractau cyfnod penodol i adael yn ôl yr angen – gallai fod yn arbediad ond gallai hyn gael ei negyddu gan gostau diswyddo y bydd rhai yn gymwys i'w cael. Efallai y byddwn wedyn yn ei chael hi'n anodd recriwtio i lenwi swyddi gwag pan fydd y rhaglen yn mynd yn ôl ar y trywydd iawn.
- Mae gennym nifer o staff ar gontractau parhaol sy'n cael eu hariannu o gyfalaf, efallai na fydd gweithgareddau newydd iddynt i'w gwneud ac mae'n bosibl y bydd mwy o ddiswyddo. Ar hyn o bryd mae gennym gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru tan 2025/26 i ariannu staff o gyfalaf , ac mae hyn yn golygu y byddem yn colli blwyddyn o'r ffynhonnell ariannu hon pan fyddwn yn mynd yn ôl ar y trywydd iawn, a bydd angen ffynhonnell gyllideb amgen wrth i hyn ddod yn fwy o bwysau cost.
- Byddai arbedion a ddisgwylir o gau yn cael eu gohirio am flwyddyn - £400k net o gostau ychwanegol ar gyfer trafnidiaeth, ac mae'n cynnwys £288k yn y flwyddyn hon FRM a fydd yn cael ei gymeradwyo fel rhan o bennu cyllidebau
- Am bob blwyddyn y gohiriwn yr agenda Trawsnewid byddwn yn cynyddu'r gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud o dros £4m y flwyddyn sy'n gost lawn i'r cyngor, mae'r ffigur hwn cyn chwyddiant sy'n codi – mae'r costau hyn i gadw'r adeiladau'n ddiogel ac ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o gyfalaf i gyflawni'r gweithgareddau ymchwil R&M sylfaenol – efallai y bydd angen i rai ysgolion gau am resymau diogelwch. Yna bydd unrhyw gostau cyfalaf yn y dyfodol yn codi o leiaf 8.5% gan wneud y rhaglen Band B yn anfforddiadwy o fewn y cynlluniau gwreiddiol

Mae'r ffactorau eraill i'w hystyried yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru (LlC) a mynediad at gyllid Band C sy'n dilyn ymlaen o Fand B (cronfa LlC 65% o'r rhaglen y mae'n rhaid i ni gyfrannu 35%).  Mae Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn siomedig ein bod yn gohirio’r rhaglen drawsnewid ac yn oedi cwblhau cynlluniau Band B - felly bydd mynediad at gyllid Band C yn cael ei oedi tan ein bod yn gallu dangos tystiolaeth bod gennym ymrwymiad gwirioneddol
- Efallai y bydd ymyrraeth bellach gan Estyn gan ein bod wedi gohirio'r strategaeth drawsnewid ac roedd hyn yn rhan sylfaenol o'n cynllun gweithredu tymor hwy
- Cadw staff a morâl mewn ysgolion sydd mewn cyflwr gwael ac sydd angen cau – effaith negyddol ac a allai effeithio ar nifer y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol ac ati e.e. ysgol fwy diogel a modern.  Mae cyrhaeddiad disgyblion / deilliannau'r cwricwlwm yn dod yn fwy heriol mewn adeiladau o ansawdd gwael
- Tarfu pellach ac ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni a staff mewn ysgolion sydd eisoes wedi'u cadarnhau eu bod yn cau ac i'r ysgolion sy'n derbyn.